# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir

# 30 Tachwedd 2020

## SL(5)661 – Rheoliadau Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â’r UE) 2020

### Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae Rheoliadau Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (“y Rheoliadau”) yn diwygio Rheoliadau Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019, sydd yn eu tro yn diwygio Rheoliadau Deunyddiau Atgenhedlol y Goedwig (Prydain Fawr) 2002 a Rheoliadau Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) (Ffioedd) (Cymru) 2019.

Mae'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau yn gweithredu penderfyniadau Prydain Fawr ar gywerthedd deunyddiau atgenhedlol y goedwig a gynhyrchir mewn gwledydd y tu allan i Brydain Fawr ac maent yn nodi'r gofynion diwygiedig sy'n berthnasol yng Nghymru. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn cynnal safonau deunyddiau atgenhedlol y goedwig a fewnforir a bioddiogelwch cysylltiedig.

Mae'r diwygiadau hyn yn angenrheidiol i adlewyrchu sefyllfa Cymru ym Mhrydain Fawr ar ddiwedd y cyfnod pontio yn deillio o ymadawiad y DU â’r UE, ac maent yn cynnal cydweddiad â'r gyfraith yn Lloegr a'r Alban. Mae'r diwygiadau yn dechnegol eu natur heb unrhyw newidiadau i bolisi.

Mae angen diweddaru'r offerynnau uchod a ragflaenodd y Cytundeb Ymadael rhwng y DU a'r UE, ac mae angen diwygiadau pellach i gyfraith yr UE a ddargedwir i sicrhau eu bod yn gweithredu'n effeithiol ar ddiwrnod cwblhau’r Cyfnod Gweithredu. Mae angen eu diwygio hefyd i ganiatáu ar gyfer gweithrediad Protocol Iwerddon/Gogledd Iwerddon mewn perthynas â Forestry Reproductive Material (Northern Ireland) Regulations 2002. Mae'r offeryn hwn hefyd yn dileu diwygiadau i Orchymyn Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) 2005 a ddisodlwyd gan Reoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) 2020.

Daw rheoliadau 1, 2, 3 a 5 i rym yn union cyn diwrnod cwblhau’r Cyfnod Gweithredu, a ddiffinnir yn adran 39 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) 2020 fel 11pm ar 31 Rhagfyr 2020. Daw Rheoliadau 4 a 6 i rym ar ddiwrnod cwblhau’r Cyfnod Gweithredu.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020
**Fe’u gwnaed ar:**
**Fe’u gosodwyd ar:**
**Yn dod i rym ar:**